



Adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli

1. Bu Cynllun Rheoli drafft Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yn destun ymgynghoriad cyhoeddus o fis Awst tan fis Hydref 2011. Yn dilyn ymgynghoriad anffurfiol cyn hynny ag awdurdodau perthnasol a chymwys, cafodd yr awdurdodau statudol hyn gyfle hefyd i ymateb yn ffurfiol; cafodd y dyddiad cau ei newid i Ionawr 2012 oherwydd amserlenni pwyllgorau awdurdodau perthnasol ac ymgynghoriadau mewnol eraill.
2. Ymatebodd yr awdurdodau perthnasol trwy eu cynrychiolwyr yng nghyfarfod Grŵp yr Awdurdodau Perthnasol a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2012 neu ar bapur. Derbyniwyd ymatebion ysgrifenedig hefyd (gan gynnwys dim ond tri trwy'r wefan) oddi wrth:
 - 2.1. Awdurdodau cymwys: Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau; Y Weinyddiaeth Amdiffyn (MoD); Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Cyngor Tref Llanelli; Cyngor Cymuned Rhosili; Cyngor Cymuned Llansteffan;
 - 2.2. Cyrff Anllywodraethol: Y Gymdeithas Cadwraeth Forol; Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru; Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru;
 - 2.3. Dau unigolyn preifat.
3. Aed ati hefyd i chwilio'r rhyngwyd am sylwadau oedd heb eu cyflwyno: yr unig sylwadau a gafwyd oedd y rheini yng nghofnodion Cyngor Gwledig Llanelli (yn dweud y dylid bod wedi cyflwyno ymateb, er na ddaeth un i law) ac ar Fforwm 'World Sea Fishing' (fforwm trafod ar gyfer genweirwyr hamdden).
4. Roedd yr awdurdodau perthnasol a chymwys a ymatebodd i gyd yn eithaf cefnogol o'r Cynllun Rheoli (CRh) drafft. Rydym wedi crynhoi eu prif sylwadau isod.
 - 4.1. Byddai angen edrych eto ar y Cynllun Rheoli (CRh) a'i ailgioriannu ar ôl diddymu Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (EAW) a sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), y corff amgylcheddol sengl newydd.
 - 4.2. Efallai y bydd angen adolygu'r CRh ar ôl i Lywodraeth Cymru roi ar waith o leiaf rai o argymhellion CCGC ar gyfer fframwaith strategol ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru.
 - 4.3. Bydd angen integreiddio gwaith rheoli'r RhC â gofynion cynllunio a rheoli morol ehangach, fel Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir a Chyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Morol Ewrop.
 - 4.4. Mae angen cydnabod bod y CRh yn ddogfen uchelgeisiol y bydd angen ei hintegreiddio'n barhaus o fewn Cronfa Ddata'r Safleoedd Arbennig a gedwir gan CCGC;
 - 4.5. Gofynnodd dau awdurdod lleol am gyngor ar sut y gallent ysgwyddo'u hymrwymiaidau ac i Swyddog yr SME am help i wneud hynny.

- 4.6. Roedd nifer o'r ymatebwyr (gan gynnwys Cyngor Gwledig Llanelli oedd heb gyflwyno'u sylwadau) yn ofidus ynghylch ansawdd y dŵr yng Nghilfan Tywyn ac yn credu y dylai'r CRh fynd i'r afael ar fyrder â'r mater hwn i rwystro rhagor o niwed tymor hir .
- 4.7. Mae'r MoD yn credu bod y CRh yn debygol o gyd-fynd â'u cynlluniau rheoli nhw ar gyfer safleoedd arfordirol a manau peryglus ar y môr.
- 4.8. Roedd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn fodlon bod y CRh yn cydnabod ac yn parchu gwaith diogelwch fel achub bywydau ar y môr.
- 4.9. Roedd Cyngor Cymuned Llansteffan yn fawr ei groeso ac yn cefnogi'r gweithredoedd ar gyfer rheoli pysgodfeydd rhynglanwol;
- 4.10. Dywedodd Cyngor Cymuned Rhosili eu bod yn poeni am effeithiau fferm wynt yr Atlantic Array;
- 4.11. Croesawodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn benodol weithredoedd sy'n ymwneud â threfniadau pori a datblygu a pheiriannu'r arfordir.
- 4.12. Croesawyd y cynllun strategol a holistig hwn gan y mudiadau anllywodraethol ar gyfer rheoli'r safleoedd presennol yn well fel cyfraniad at greu rhwydwaith effeithiol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Roeddynt yn fawr eu croesi i'r gweithredoedd a gynigiwyd, yn enwedig rheoli adnoddau'r pysgodfeydd, rheoli'r gwaith palu am lyngyr, hamddena niweidiol, ansawdd dŵr, datblygu ar yr arfordir, amddiffyn yr arfordir ac encilio o dan reolaeth, er bod angen mwy o fanylder mewn cysylltiad â nifer ohonynt. Gwnaethant bwysleisio bod angen sicrhau bod y CRh yn dod yn ddogfen fyw i wella a llywio'r ffordd y rheolir yr SME. Argymhellon nhw hefyd y dylid neilltuo adnoddau yn y tymor hir i wireddu uchelgeisiau positif y CRh a bod adnoddau ac amser staff yn canolbwyntio ar waith maes â rhanddeiliaid.
- 4.13. Roedd cynrychiolwyr genweirwyr yn teimlo bod angen rhoi mwy o sylw i'r ffaith bod genweirio hamdden yn llai o fgythiad i'r amgylchedd na physgota masnachol.
5. Dywedodd Llywodraeth Cymru bod angen integreiddio cyfrifoldebau'r RAG a Llywodraeth Cymru am reoli'r SME. Mae'r awdurdodau perthnasol a'r gymuned ehangach yn rhoi eu cefnogaeth fras i uchelgais a bwriad y CRh, er bod angen gwneud rhagor o waith arno. Ond o gofio y bydd y CRh wastad yn ddogfen ddeinamig ac y bydd angen iddi ddatblygu ac esblygu, a chan gymryd i ystyriaeth y newidiadau mawr sy'n digwydd ar hyn o bryd – yn enwedig sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru, yr argymhellion yn adolygiad CCGC o'r modd y rheolir ardaloedd morol gwarchoddedig, mentrau fel cynlluniau gofodol morol a gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Morol – mae'r RAG wedi cytuno i ohirio unrhyw ddatblygu neu newid pellach ar y CRh tan y ceir mwy o eglurder ynghylch y fframwaith llywodraethu a ddefnyddir i reoli'r SME.
6. Mae'r RAG a'r awdurdodau perthnasol sy'n perthyn iddo wedi cytuno felly i ddefnyddio'r CRh presennol fel drafft gweithio a fydd yn fframwaith dros dro i hybu gwaith integredig ar gyfer cyflawni ymrwymadau rheoli'u SME.